# Allyriadau Carbon

Rydym wedi ymrwymo i gyrraedd Sero Net erbyn 2050, yn unol â tharged Llywodraeth Cymru, ac mae $CO_2e$ yn faes ffocws allweddol i ni.

Dyma rai o'n llwyddiannau:

- Mae rhan un ein rhaglen offer rhewi wedi ein gweld bron yn dileu nwy rhewyddion (refrigerant gas) drwy arbed 93 tunnell $CO_2e$
- Ailbwrpasu defnydd adeilad Bwydlyn, gan arbed 47 tunnell $CO_2e$
- Arbed mwy na 10 tunnell o allyriadau carbon drwy osgoi tirlenwi
- Gosod offer rhewi di-injan (engineless refrigeration) mewn chwech cerbyd HGV gan arbed mwy nag 80 tunnell $CO_2e$
- Paratoi a chyhoeddi adroddiad ar ein perfformiad amgylcheddol ym mhob un o'r tri chwmpas (scopes) er mwyn mesur a dangos ein gostyngiadau carbon wrth gyrraedd ein hamcanion






# Y Gadwyn Gyflenwi

Ein nod yw cwrdd ag anghenion ein cwsmeriaid a chael ein hadnabod fel y cyflenwr gwasanaethau bwyd mwyaf dibynadwy ac effeithlon yng Nghymru a'r Gogledd Gorllewin.

Mae ein gweithredoedd yn cynnwys:

- Sicrhau fod ein cadwyn gyflenwi yn gweithredu yn unol â'r Ddealltwriaeth Olew Palmwydd Cynaliadwy, y cynllun Tractor Coch ac arferon gorau'r Marine Stewardship Council
- Gweithio gyda'r Country Range Group a Socius i leihau'r defnydd o blastig
- Sicrhau achrediadau a thystysgrifau megis STS Food Safety, Green Dragon ac RSPO
- Gweithio o fewn cadwyn gyflenwi sy'n ceisio bod mor lleol â phosibl ar gyfer pob cleient, a thrwy hynny leihau gymaint â phosibl ar gyfanswm y milltiroedd bwyd

# Gwerth Cymdeithasol

Mae gennym ffocws ar gynnig cyfleon gyrfa, hyfforddiant a phrentisiaethau, i bobl drwy gefnogi gweithgareddau cymunedol.

Dyma rai uchafbwyntiau:

- Rhoddi £10,000 i amrywiaeth o achosion teilwng, yn cynnwys clybiau chwaraeon, ysgolion ac elusennau ar draws Gogledd Cymru ac i mewn i Gaer
- Annog a chefnogi mêts gyrwyr (drivers' mates) i ennill trwydded HGV
- Dyrchafu pedair o'n staff benywaidd i swyddi uchel a dilyn y canllawiau cyflog cyfartal
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu prydau bwyd yn ystod gwyliau ysgol




HARLECH
EST FOODSERVICE 1972
GWASANAETH BWYD

**HEAD OFFICE**
Harlech Foodservice Ltd
Food Park, Criccieth, Gwynedd, LL52 0LJ
T. 01766 810810 **www.harlech.co.uk**